

# Cynllun corfforaethol 2017–2018



# Cyflwyniad

## Amdanom ni

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwagedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio effeithlon ac effeithiol.

Ein nod yw darparu rheoliadau gwych i gleifion a'r cyhoedd, a thrwy wneud hyn rydym yn anelu at fodloni'r Safonau Rheoleiddio Da a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

## Ein rôl

### Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- cadw cofrestr o'r holl nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r gofynion cofrestru yn y DU
- pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwagedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaedd
- cymryd camau i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ansawdd a safonau gofal a roddir gan nyrsys a bydwagedd.

# Ein strategaeth

Mae *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn ein herio i sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn un arloesol a blaengar a all addasu i newidiadau ym maes gofal iechyd a'r galwadau ar nyrsys a bydwagedd. Mae'n nodi pedair blaenoriaeth strategol i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd.

**1**

**Rheoleiddio effeithiol**

**2**

**Defnyddio gwybodaeth**

**3**

**Cydweithredu a  
chyfathrebu**

**4**

**Sefydliad effeithiol**



# Trosolwg

Hon yw trydedd flwyddyn ein strategaeth pum mlynedd. Mae ein cynllun ar gyfer 2017–2018 yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni'n barod ac yn datblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ers dwy flynedd.

Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau corfforaethol a'n hymrwymadau i wneud rhagor o gynnydd tuag at ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr deallus, dynamig ac arweiniol, sy'n sicrhau gwerth am arian o ran ffioedd nyrsys a bydwragedd.



# Ein cyflawniadau hyd yn

**Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, gan gynnwys:**

---

- cyflwyno ein **Cod newydd** ar gyfer safonau proffesiynol ym maes nyrsio ac ymddygiad nyrsys a bydwagedd, sydd wrth wraidd gofal nyrsio a bydwreigiaeth da
  - gweithredu system **aiddilysu**, sydd wedi cael ei chroesawu gan y proffesiynau ac sydd eisoes yn llwyddiant ysgubol
  - rhoi ein **strategaeth addysg** ar waith, sef rhaglen pedair blynedd i sicrhau bod ein safonau addysg yn datblygu nyrsys a bydwagedd y dyfodol
  - ehangu **NMC online**, gan alluogi nyrsys a bydwagedd i ryngweithio â ni'n haws a thalu'r ffi flynyddol mewn rhandaliadau
  - gwella prosesau addasrwydd i ymarfer drwy gyflwyno **archwilwyr achos** i benderfynu a ddylai achosion gael eu dirwyn i ben ar ôl cynnal ymchwiliad neu barhau i'r cam dyfarnu
  - cyflwyno **Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr** newydd er mwyn helpu cyflogwyr i atgyfeirio'r achosion cywir atom
  - gwneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn atgyfnerthu'r broses o **reoleiddio bydwreigiaeth** a chyflawni ein hymrwymiad moesol i gefnogi newid i drefniadau goruchwyllo clinigol newydd nad ydynt yn rhai rheoleiddio ledled y pedair gwlad.
- 

Ynghyd â hyn, rydym wedi parhau i wella perfformiad ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ac wedi symud tuag at sefydlogrwydd ariannol, wrth gynnal y ffioedd a delir gan nyrsys a bydwagedd ar gyfraddau 2015.

Roeddem yn falch o weld yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn cydnabod hyn, ar y cyd â chyflawniadau arwyddocaol eraill, gan arwain at ein hadroddiad adolygu perfformiad gorau erioed, gan olygu mai ni yw un o'r rheoleiddwyr sy'n perfformio orau.

# Cyd-destun strategol

Mae angen i'n cynllun corfforaethol hefyd gael ei lywio gan y newidiadau cyflym sy'n parhau o ran y dirwedd iechyd a chymdeithas ehangach yr ydym yn gweithredu ynddynt.

## Rheoleiddio pedair gwlad

Fel rheoleiddiwr pedair gwlad, rydym yn ymwybodol iawn bod yn rhaid i ni fod yn effro drwy'r amser i'r dulliau gweithredu a'r datblygiadau cynyddol wahanol mewn polisi iechyd a gofal a sut y'i cyflawnir yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae ein cydberthnasau cryf â'r holl weinyddiaethau yn allweddol i hyn ond byddwn yn parhau i feithrin ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r fframweithiau gwahanol sydd ar waith a sut maent yn rhyngweithio â phrosesau rheoleiddio.

## Proffesiwn newydd

Datblygiad pwysig sydd â goblygiadau hirdymor i'n gwaith yw cyflwyno maes nyrsio newydd, sef nyrsys cyswllt. Yn sgil penderfyniad y Llywodraeth bod angen rheoleiddio'r gwaith o amddiffyn y cyhoedd, gwnaethom gytuno i reoleiddio nyrsys cyswllt, ar gais y Llywodraeth. Mae ehangu ein rôl yn y fath fodd yn gyfrifoldeb newydd sylweddol ac yn dangos hyder ynom ni ac yn ein gwaith. Byddwn yn gweithio gyda'r proffesiwn nyrsio, rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn gallu dechrau cofrestru'r nyrsys cyswllt newydd cyntaf ar ddechrau 2019.

## Y darlun ehangach

Ymhlith datblygiadau diweddar neu bosibl eraill a allai effeithio ar ein gwaith y flwyddyn nesaf mae:

- y **pwysau economaidd a pherfformiad** parhaus ar iechyd a gofal cymdeithasol; newidiadau yn yr angen am ofal; a sut a phryd y darperir gofal sy'n effeithio ar bob un ohonom.
- Goblygiadau posibl **Brexit**. Ynghyd â rheoleiddwyr eraill rydym wedi ceisio tawelu meddyliau gweithwyr cymwysedig AEE na fydd newid sydyn i'r ffordd rydym yn ystyried ceisiadau cofrestru nac unrhyw effaith ar y rhai sy'n gweithio yma'n barod. Wrth i'r sefyllfa ddatblygu byddwn yn parhau i gadw llygad barcud ar yr effaith ar y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth a'n gwaith.



- Newidiadau sylweddol yn y **sector addysg uwch** sydd â goblygiadau o ran ein dull o nodi a sicrhau ansawdd darpariaeth addysg nyrsys, bydwragedd ac, wrth i ni ddechrau'r gwaith hwn, nyrsys cyswllt. Yn gysylltiedig â hyn, bydd i gynlluniau'r Llywodraeth i gyflwyno **prentisiaethau** oblygiadau o ran llwybrau cymhwyso nyrsio a bydweigiaeth, fel yn achos proffesiynau eraill.
- **Diwygio rheoliadau o bosibl.** Ynghyd â rheoleiddwyr eraill, rydym wedi galw ers tro am foderneiddio ein deddfwriaeth hynafol. Edrychwn ymlaen at gyfrannu at ymgynghoriad arfaethedig y Llywodraeth sydd ar ddod a pharhau i helpu i lywio a dylanwadu ar ddyfodol rheoleiddio. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith gyda rheoleiddwyr eraill er mwyn edrych ar ffyrdd arloesol o gydwethio heb fod angen newid deddfwriaeth.
- **Cydweithredu strategol.** Ystyried i ba raddau y gellir rhannu gweithgareddau a swyddogaethau â rheoleiddwyr eraill lle mae hynny'n gwneud synnwyr ac yn amddiffyn y cyhoedd yn well.



# Ein blaenoriaethau a'n hymrwymiaadau ar gyfer 2017–2018

Bydd yr hyn a nodir uchod yn llywio ein gwaith y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol. Mae ein hymrwymiaadau cyflawni penodol ar gyfer 2017–2018 yn canolbwyntio ar ddatblygu pedair rhaglen waith fawr sydd eisoes ar waith, wrth barhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Y rhain yw:

## **Addysg**

Dechrau cyflawni canlyniadau cyntaf ein strategaeth a dechrau gweithio ar elfennau eraill

## **Nyrsys cyswllt**

Datblygu'r fframwaith, prosesau a systemau rheoleiddio er mwyn gallu dechrau cofrestru'r nyrsys cyswllt newydd cyntaf ar ddechrau 2019

## **Addasrwydd i ymarfer**

Achub ar newidiadau pellach i ddeddfwriaeth er mwyn moderneiddio ein dull gweithredu ymhellach sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu'n gynnar, gan gyflawni'r canlyniadau sy'n amddiffyn y cyhoedd orau ar y cam cynharaf posibl

## **Trawsnewid**

Gweithredu cam cyntaf ein rhaglen trawsnewid sefydliadol fawr, yn amodol ar benderfyniadau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017

## **Swyddogaethau rheoleiddio craidd**

Parhau i gynnal ein perfformiad cryf presennol.



Yn ogystal â'n hymrwymiaidau cyflawni penodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar y canlynol ym mhob agwedd ar ein gwaith:

## **Rheoleiddio bydwreigiaeth**

A gefnogir gan y Panel Bydwreigiaeth, gan gynnwys monitro'r broses o newid y system oruchwylio, wrth ddatblygu ein hymrwymiad i sicrhau bod y Cyngor cyfan yn gyfrifol am reoleiddio bydwreigiaeth a bod materion sy'n effeithio ar wasanaethau bydwreigiaeth a mamolaeth yn rhan prif ffrwd o fusnes y CNB.

## **Data a gwybodaeth**

Ceisio gwella ein gallu i ddeall a defnyddio'r data a'r wybodaeth a gasglwn ac a gadwn, gan ddarparu cipolwg a gwybodaeth fel rhan o'r broses o fod yn rheoleiddiwr dynamig. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori hyn yn ein rhaglen trawsnewid lle bo'n briodol.

## **Safbwyntiau cleifion a'r cyhoedd**

Meithrin ein dealltwriaeth o safbwyntiau ac agweddau cleifion a'r cyhoedd yr ydym yn bodoli i'w hamddiffyn er mwyn llywio ac atgyfnerthu ein gwaith, gan gynnwys drwy ymgynghori â chleifion a'r cyhoedd ar gamau allweddol o ddatblygu ein prosesau, polisiau a safonau.



# Ein hymrwymiaidau cyflawni 2017–2018

## Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol

### Addysg

Erbyn 31 Mawrth 2018 byddwn wedi:

#### Nyrsio

- Cyhoeddi safonau addysg cyn cofrestru seiliedig ar gymwyseddau newydd yn barod i'w mabwysiadu o fis Medi 2018 a'u cyflwyno'n llawn erbyn mis Medi 2019, gan ystyried safbwyntiau ac adborth y cyhoedd, cleifion a'n holl randdeiliaid.

#### Bydwreigiaeth

- Paratoi safonau addysg cyn cofrestru seiliedig ar gymwyseddau newydd drafft yn barod i ni ddechrau eu profi gyda gweithwyr bydwreigiaeth proffesiynol, addysgwyr, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

#### Rhaglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth

- Cyhoeddi fframwaith addysg newydd sy'n nodi'r gofynion i sefydliadau sydd am gyflwyno rhaglenni cymeradwy, gan ystyried safbwyntiau ac adborth y cyhoedd, cleifion, y proffesiwn a rhanddeiliaid.

#### Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth

- Parhau i ddatblygu ein dull o sicrhau ansawdd addysg.

#### Safonau ôl-gofrestru nyrsio a bydwreigiaeth

- Adolygu safonau rhagnodi, rheoli meddyginiaethau, a dychwelyd i ymarfer, gan ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, cleifion a rhanddeiliaid, a diwygio'r safonau hyn lle bo'n briodol.

## Nyrsys cyswllt

### Erbyn 31 Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Datblygu ac ymgynghori ar safonau hyfedredd a safonau addysg nyrsys cyswllt. Wrth wneud hynny, byddwn yn ymgynghori â chleifion, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, ac yn gwrando ar eu barn.

## Addasrwydd i ymarfer

### Erbyn 31 Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol i fynd i'r afael â phryderon addasrwydd i ymarfer mewn ffordd gymesur a chyflym ar ôl ymgynghori â chleifion, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, a gwrando ar eu barn. Bydd archwilwyr achos wedi dechrau defnyddio pwerau newydd i roi cyngor, rhybuddion a chytuno ar ymgymeriadau mewn achosion fel sy'n briodol.

## Cynnal perfformiad rheoleiddio craidd

### Drwy gydol 2017–2018 byddwn yn:

- Parhau i berfformio'n gadarn yn erbyn ein targedau allweddol ar gyfer Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer.
- Parhau i adrodd ar ein perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid a gwelliannau a gyflwynir o ganlyniad i adborth cwsmeriaid.



## **Blaenoriaethau strategol 2, 3 a 4: Defnyddio gwybodaeth; Cydweithredu a chyfathrebu; Sefydliad effeithiol**

### **Trawsnewid**

Mae ein rhaglen Trawsnewid wrth wraidd gweithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon o ran y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ac yn gwella gwasanaeth cwsmeriaid a gwerth am arian yn y dyfodol. Mae'n rhaglen pedair blynedd a fydd yn gwella'r gwaith o ddatblygu ein pobl, ein lleoliad, ein technoleg a moderneiddio ein gwasanaethau.

Mae systemau a gwasanaethau newydd sy'n manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg yn gam cyntaf hanfodol: bydd canolfan gyswllt newydd yn rhan bwysig o'n buddsoddiad yn 2017-2018. Bydd yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn unol ag arfer gorau, gan gynnig gwell mynediad a dewis i bawb sy'n rhyngweithio â ni neu sydd angen ein gwasanaethau. Mae sicrhau ansawdd, cynnig gwell profiad i gwsmeriaid a chyflawni gwerth gorau am arian o ran ffioedd nyrsys a bydwagedd yn amcanion allweddol ar gyfer y cam buddsoddi cychwynnol hwn.

Cynigir cyflawni'r rhaglen trawsnewid fesul cam er mwyn sicrhau y gellir dechrau gweithio mewn ffyrdd newydd yn ddiogel.

Bydd ein dull Trawsnewid yn amodol ar benderfyniadau terfynol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017.

### **Pobl**

Mae buddsoddi yn ein pobl a'u galluoedd yn hollbwysig i'n llwyddiant. Bydd ein Strategaeth Pobl yn amlinellu'r ffordd yr awn ati i ddenu, recriwtio, cadw, datblygu, ymgysylltu, cymell, cydnabod a gwobrwyo ein pobl. Bydd yn rhannu ein hymrwymiad i ddatblygu ein gweithlu, gan sicrhau bod y CNB yn sefydliad y mae pobl am weithio gydag ef i gyflawni ein nodau. Bydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn, fel bod pobl yn gallu gweld bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod.



## Trawsnewid

**Erbyn 31 Mawrth 2018, yn amodol ar benderfyniadau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017, byddwn wedi:**

- cyflawni cam cyntaf y ganolfan gyswllt, gan gynnwys cael gafael ar safle priodol.
- cyflawni cam cyntaf system rheoli cydberthnasau cwsmeriaid newydd a thechnoleg newydd gysylltiedig.
- gweithredu elfennau cyntaf y strategaeth Pobl, gan gynnwys gwell adnoddau dynol ac adnoddau datblygu sefydliadol er mwyn helpu staff a rheolwyr drwy gam cyntaf y rhaglen trawsnewid.





23 Portland Place, London W1B 1PZ

T +44 20 7637 7181 F +44 20 7436 2924

**[www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)**

The nursing and midwifery regulator for England,  
Wales, Scotland and Northern Ireland.

Registered charity in England and Wales (1091434)  
and in Scotland (SC038362).